

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod	9 Rhagfyr 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Awdur yr Adroddiad:	Tara Dumas, Rheolwr Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu
Teitl	Y wybodaeth ddiweddaraf am y Model Gweithredu Newydd ar gyfer Gwastraff ac Ailgylchu a chynnydd o ran Mentrau Cyfathrebu:

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Ar 18 Rhagfyr 2018 cymeradwyodd y Cabinet fodel gweithredu newydd ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol ac ailgylchu o aelwydydd h.y. casgliad deunyddiau ailgylchu wedi'u didoli wythnosol a chasgliad gwastraff gweddilliol bob pedair wythnos ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn y gwasanaeth 'safonol' (**Gweler Atodiad 1**). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad cyffredinol ar gynnydd hyd yma a gwybodaeth am y metrau cyfathrebu diweddaraf sydd wedi'u cynllunio i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r gwasanaeth dros y 6 mis nesaf. Mae hefyd yn rhoi manylion am y gyfres o Bolisiau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu y bwriedir eu mabwysiadu yn y Flwyddyn Newydd i gefnogi'r gwasanaeth nŵan ac yn dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Wrth i ddyddiad rhoi'r Model Gweithredu newydd ar waith agosáu, mae'n bwysig bod yr Aelodau'n cael gwybodaeth lawn am gynnydd y prosiect. Mae Bwrdd y Prosiect Gwastraff wedi ymrwymo i adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor hwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod yr Aelodau'n trafod y cynnydd y mae Tîm y Prosiect wedi'i wneud er mwyn cyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd i breswylwyr erbyn haf 2023.
- 3.2 Bod Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r gyfres o bolisiau gwastraff cartref ac ailgylchu (**Atodiad II**) ac yn nodi bod y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn bwriadu sicrhau y caiff y polisïau eu mabwysiadu drwy'r broses penderfyniadau dirprwyedig erbyn mis Mawrth 2022.

3.3 Bod y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ganlyniadau'r prosiect peilot yng Ngorllewin y Rhyl (defnyddio microsglodion mewn cynwysyddion gwastraff) a Bron y Crest (newid gwasanaeth biniau cymunedol) a mentrau Profiad Ailgylchu Aelodau Etholedig.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Diweddariad Cyffredinol

Mae rhoi'r newid gwasanaeth hwn ar waith yn gymhleth ac yn cynnwys nifer o "ffrydiau gwaith". Mae **Atodiad III** yn mapio statws y cerrig milltir allweddol a adroddwyd i'r Pwyllgor diwethaf. Mae'r mwyafrif ar y trywydd iawn o hyd a'r bwriad yw y bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei roi ar waith yn gynnar yn yr haf 2023. Mae gwaith paratoadol Cam 1 y depo canolog newydd yn Sir Ddinbych yn symud yn ei flaen yn dda. Mae ffotograffau'n dangos graddfa a statws presennol y gwrthglawdd yn ymyl Ystâd Ddiwydiannol Colomendy i'w gweld yn **Atodiad IV**, ynghyd â chynlluniau ar gyfer elfen adeiladu Cam 2 ar y darn o dir sy'n perthyn i'r Cyngor.

Mae 'cynllunio llwybr' y gwasanaeth newydd wedi bod yn hollbwysig i'r amserlen. Mae'r dasg bellach wedi'i chwblhau. Clustnodwyd rownd casgliadau ar gyfer casgliadau ailgylchu wythnosol a gwastraff gweddilliol y dyfodol ar gyfer pob aelwyd a bydd y ddau yn digwydd ar yr un diwrnod. Rydym yn gwybod faint o gerbydau ailgylchu, a pha mor fawr, y mae angen i ni eu prynu ar gyfer y gwasanaeth newydd. Oherwydd y pwysau y mae'r diwydiant gweithgynhyrchu'n ei wynebu o ganlyniad i Covid-19 a Brexit, rydym wedi trefnu i gaffael y cerbydau hyn yn gynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu danfon mewn pryd. Mae opsiwn i hyd at draean o'r prif fflyd ailgylchu fod yn Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) llwyr drydanol wedi'i gynnwys yn y fanyleb a bydd hyn yn lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth yn arwyddocaol. Rydym yn bwriadu dyfarnu'r contract ym mis Ionawr.

4.2 Gwneud y mwyaf o fanteision amgylcheddol drwy fabwysiadu polisïau gwastraff y DU a pholisïau lleol

Atgoffir yr Aelodau bod penderfyniad y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 yn bennaf seiliedig ar fuddion amgylcheddol ac economaidd ehangach. Mae **Atodiad V** yn cyfeirio at fersiwn diweddaredig o'r Cynllun Gwireddu Buddiannau.

Mae difrifoldeb yr argyfwng newid yn yr hinsawdd wedi arwain at gyfres o newidiadau i bolisïau'r Llywodraeth. Mae amseriad a dyluniad y gwasanaeth newydd yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i sicrhau ein bod yn gweithredu gwasanaeth gwyrddach sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac a fydd yn gallu diwallu targedau amgylcheddol statudol yn well.

4.2.1 Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPRS)

Bydd yr EPRS yn cael ei lansio yn hwyr yn 2023. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn sicrhau bod ar gynhyrchwyr, gwneuthurwyr a chyflenwyr allweddol ddyletswydd gyfreithiol dros gost adfer eu deunydd pecynnu. Bydd y ddeddfwriaeth

arfaethedig yn eu cymell i gynhyrchu cynnyrch y gellir ei ailgylchu, neu gynnyrch sy'n cynnwys mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Un o brif sbardunau'r cynllun hwn yw sicrhau ansawdd y deunyddiau yr ydym yn eu casglu i'w hailgylchu. Bydd cynghorau lleol yn cael eu talu i gasglu'r gwastraff pecynnu yr ydym yn ei dargedu yn ein gwasanaeth ymyl palmant. Nid yw'r manylion ynghylch yn union beth fydd yn cael ei ariannu a sut y bydd taliadau'n cael eu darparu wedi'u cadarnhau eto, ond rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o gostau gweithredol sy'n codi'n gyffredinol, er enghraifft cerbydau, staffio a seilwaith gorsaf drosglwyddo. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei dalu ar gyfradd osodedig sy'n seiliedig ar y costau arferol sy'n deillio o'n grŵp o gynghorau tebyg (h.y. â demograffeg, maint a dosbarthiad daearyddol a systemau casglu tebyg). Gellir lleihau neu ddal taliadau'n ôl os nad yw safonau ansawdd yn cael eu diwallu. Caeodd yr ail ymgynghoriad ar yr EPRS ym mis Mehefin 2021 ac mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd cyn cyhoeddi manylion y cynllun newydd.

4.2.2 Cynllun Dychwelyd Blaendal

O dan y cynllun hwn bydd cwsmer yn cael ad-daliad rhannol pan gaiff pecynnu ei ddychwelyd i bwynt casglu (safle gwerthu yn aml), yn debyg i'r hyn a fyddai'n digwydd yn y gorffennol. Nid yw manylion y cynllun a fydd yn cael ei roi ar waith yng Nghymru a Lloegr wedi'u cadarnhau eto ond fel isafswm gallai ddilyn y model Albanaidd (sydd i'w lansio yn 2022), sef 20c yn ôl ar y rhan fwyaf o gynwysyddion diodydd (gwydr, metel a phlastig). Mae lobiwyr gwrth-sbwriel wedi bod yn ymgyrchu dros gyflwyniad y cynllun yn y DU oherwydd y gwelwyd bod sbwriel wedi lleihau'n sylweddol mewn gwledydd sydd wedi mabwysiadu Cynllun Dychwelyd Blaendal. Profwyd hefyd bod y cynllun yn cynyddu cyfraddau ailgylchu mewn gwledydd lle nad oes casgliadau cyson na chynhwysfawr o ymyl y palmant. Mae ymddygiadwyr yn rhagweld y bydd ailgylchu'n cynyddu ar draws poblogaethau lle mae cynllun dychwelyd blaendal ar waith ac na fydd eu hymddygiad yn gyfyngedig i'r deunyddiau sy'n dod o dan y cynllun yn unig, yn enwedig wrth i bobl ddysgu bod gwerth i'w gwastraff.

Mae Awdurdodau Cymru ymysg y mwyaf llwyddiannus yn y byd am gasglu cynwysyddion diodydd i'w hailgylchu ac mae pryder y bydd y Cynllun Dychwelyd Blaendal yn dyblygu'r ymdrechion hyn. Mae Awdurdodau Lleol sy'n rhedeg systemau didoli ymyl y palmant yn dibynnu ar yr incwm o werthiant y cynwysyddion a gesglir i helpu i ariannu'r seilwaith y mae arnynt ei angen i baratoi'r gwastraff ar gyfer ei ailwerthu. Gan gydnabod y risg hwn, mae Llywodraeth Cymru a WRAP Cymru yn cefnogi treialon i geisio dod o hyd i ateb ymarferol i alluogi aelwydydd i hawlio eu blaendaliadau'n ôl drwy gynlluniau casgliadau ymyl palmant y Cyngor. Byddai hyn yn lleihau'r angen am gymaint o seilwaith ar gyfer y cynllun dychwelyd blaendal a allai fod yn gostus, gyda'r gost yn disgyn ar y defnyddiwr drwy gynnydd mewn costau prynu. Er i ni ennill ein sgorau glendid gorau erioed eleni, canfuwyd sbwriel 'diodydd i fynd' ar tua 22% o strydoedd Sir Ddinbych a arolygwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus (Adroddiad System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) 2021/22). Mae ein gwasanaeth glanhau strydoedd hefyd yn casglu symiau sylweddol o

gynwysyddion y gellir eu hailgylchu o ymylon ffyrdd a mannau agored bob blwyddyn. Mae'n sicr felly y byddai rhaglen o gymhelliant fel cynllun dychwelyd blaendal yn cael effaith buddiol ar ansawdd ein hamgylchedd lleol ac ar gostau glanhau. Mae hi'n bwysig iawn felly dod o hyd i ateb effeithiol a fydd yn gweithio gyda, yn hytrach nag yn cystadlu yn erbyn glasbrint casgliadau ailgylchu ymyl y palmant Cymru. Bydd yr astudiaeth achos y mae disgwyl eiddgar wedi bod amdano yn cael ei ryddhau'n fuan.

4.2.3 Polisi Casglu Gwastraff Cartref ac Ailgylchu Sir Ddinbych

I sicrhau bod pobl yn gwneud y defnydd eithaf o'n gwasanaethau gwastraff er mwyn i ni yn ein tro uchafu effeithlonrwydd a pherfformiad ailgylchu'r gwasanaeth, argymhellir ein bod yn nodi'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae polisiau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau a'u dwyn ynghyd yn un ddogfen [Atodiad II (a)]. Gofynnir i aelodau adolygu a chymeradwyo'r Polisi Casglu Gwastraff Cartref ac Ailgylchu. Mae Atodiad II(b) yn amlygu newidiadau i'r polisi unwaith y bydd y model gweithredu newydd ar gyfer casgliadau gwastraff yn weithredol. Bydd y polisi terfynol yn cael ei fabwysiadu drwy'r proses Penderfyniadau Dirprwyedig erbyn 1 Ebrill 2022.

4.3 **Diweddariad ar Gyfathrebu: Paratoi ein preswylwyr ar gyfer newid**

Mae Atodiad IV yn amlinellu'r cynllun cyfathrebu hyd yma. I grynhoi, y prif weithgareddau rhwng rŵan a mis Mehefin 2022 yw:

- Prosiect Gorllewin y Rhyl - Microsglodynnu cynwysyddion (biniau olwynion a sachau sy'n gwrthsefyll ymosodiadau gan wylanod) – treial i werthuso'r buddion o ran lleihau'r gwastraff sy'n dod allan o fagiau, biniau'n cael eu gadael/gadael allan/dwyn, deunyddiau ailgylchu'n cael eu llygru, cyfraddau ailgylchu. Mae'r prosiect hwn wedi'i oedi oherwydd anawsterau recriwtio ond mae swyddog prosiect yn awr wedi'i benodi ac mae paratoadau ar gyfer y newidiadau ar y gweill.
- Monitro ac ymgysylltu parhaus â'r treial pwynt casglu biniau cymunedol ym Mron y Crest, Dinbych.. Sefydlwyd system gasglu newydd ym mis Tachwedd. Yr arwyddion cynnar yw bod ansawdd yr ailgylchu wedi gwella'n sylweddol o blith y rhai sy'n cymryd rhan weithredol, Er mwyn ehangu'r treial bydd ail safle'n cael ei ddewis yn ardal Gorllewin y Rhyl yn y Flwyddyn Newydd.
- Profiad 'gwasanaeth safonol' aelodau etholedig – bydd aelodau wardiau sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaeth bin glas/du ymyl y palmant yn cael cyfle i brofi'r gwasanaeth newydd am 8 wythnos ym mis Chwefror a Mawrth y flwyddyn nesaf. Ar gyfer y cyfnod hwn bydd aelodau'n defnyddio bocs troli a sach aml-ddefnydd yn lle eu bin glas a byddant yn cael bin du mwy (os bydd angen). Bydd casgliadau ailgylchu wythnosol yn cael eu gwneud (yn cynnwys gwastraff bwyd) a bydd y gwastraff gweddilliol yn cael ei gasglu bob pedair wythnos. Bydd y rhai sydd angen hynny'n cael capasiti ychwanegol ar gyfer gwastraff hylendid. Gofynnir i wirfoddolwyr lenwi dyddiadur syml gan fwydo eu sylwadau'n ôl i swyddogion ar ddiwedd yr treial. Cysylltir ag aelodau

ddiwedd mis Rhagfyr i hyrwyddo'r cyfle a bydd adroddiad 'astudiaeth achos' ar gael erbyn diwedd mis Ebrill 2022.

- Bydd y newyddlen chwarterol *B INformed* yn cael ei lansio fis Ionawr. Bydd ar gael ar ffurf copi caled mewn Siopau Un Alwad a llyfrgelloedd. Bydd aelwydydd yn cael eu hannog i gofrestru am rifynnau'r dyfodol. Nod y newyddlen yw sicrhau bod aelwydydd yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar ddod i'w gwasanaeth biniau ac yn deall pam bod y newidiadau'n cael eu gwneud. Ar y cychwyn bydd tag yn cael ei roi ar bob bin du i hyrwyddo e-fersiwn y Newyddlen. Bydd enw pob preswlydd sy'n cofrestru ar gyfer diweddariadau rheolaidd erbyn diwedd Mawrth 2022 yn cael ei gynnwys mewn cystadleuaeth am ddim i ennill gwobr. Mae'r Gwasanaeth yn anelu at fod ag 1 aelwyd o bob 5 wedi'u cofrestru erbyn haf 2023.
- Bydd y gwasanaeth yn lansio gwybodaeth Ailgylchu A-Z ar-lein penodol ar gyfer Sir Ddinbych. Bydd aelodau'n cael cyfle i weld y teclyn addysgiadol defnyddiol hwn cyn ei lansiad cyhoeddus ym mis Ionawr. Mae'r A – Z yn berthnasol i'n system ailgylchu presennol a bydd yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r pethau ychwanegol y gallwn eu hailgylchu unwaith y bydd y model gwastraff newydd ar waith.
- Mae rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin am y gwasanaeth newydd wedi'i chynhyrchu. Ar y dechrau bydd y rhestr yn cael ei defnyddio'n fewnol i helpu'r Tîm Cyfathrebiadau a staff blaen tŷ i ymateb i gwestiynau am y gwasanaeth. Bydd y Cwestiynau Cyffredin yn cael eu gynnwys yn yr ail gylchlythyr B INformed ym mis Ebrill 2022. Gellir gweld detholiad bach o'r cwestiynau cyffredin yn Atodiad VII.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Gweler adroddiad i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018. Yn ogystal, mae'r prosiect yn gwneud cyfraniad sylweddol at uchelgais y Cyngor i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r Cyngor yn dal i weithredu o fewn y ffenestr fforddiadwyedd a nodwyd gan y Cabinet i leihau costau blynyddol y gwasanaeth o o leiaf £500,000 (Gw. **Atodiad VIII**).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar Les 407 gwreiddiol a gynhaliwyd yn 2018 ei ddiweddarau ym mis Ebrill 2021. Gellir gweld fersiwn diweddaraf yr Asesiad o'r Effaith ar Les yma:

<http://wellbeingad.denbighshire.gov.uk/Assessments/Assessment/en/407>

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd Arolwg Preswylwyr 'Ailgylchwch Fwy' yn 2018. Yn ogystal â'r grwpiau hynny yr ymgysylltwyd â nhw ac a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad Craffu Cymunedau ar 24 Hydref 2019, mae'r gwasanaeth hefyd wedi adrodd i: Briff Cabinet (diweddariad ar y depo) Hydref 2020 ac Ebrill 2021; Pwyllgor Craffu Perfformiad (elfen Gwastraff Masnachol) Mawrth 2021; SIG (Microsglodynnu a Thechnoleg yn y Cab) Mawrth 2021; Pwyllgor Craffu Cymunedau Mai 2021; Cabinet (19 Hydref 2021).

4. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn a gofynnir i'r Aelodau nodi cynnydd y prosiect. Gyda'r pwysau ariannol a geir yn sgil cynnydd yng nghostau cyflenwadau/deunyddiau yn effeithio ar gostau'r Depo, y Fflyd a Chynhwysyddion, rhagwelir y bydd y gronfa risg wrth gefn o £2m o fewn y costau prosiect cyffredinol wedi'i defnyddio'n llawn i ddarparu'r newid yn y gwasanaeth. Fel y nodir yn 6.1 mae'r arbedion refeniw blynyddol rhagamcanol ar gyfer y gwasanaeth yn parhau i anelu at y targed, i gwrdd â chostau benthyca darbodus y prosiect.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Cedwir cofrestr risg gynhwysfawr ar system Verto'r Cyngor sy'n cael ei monitro gan y Bwrdd Prosiect.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Adran 11.1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 21 ac Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.